

Peiriant Amser

(CA2)

Yn y sesiwn 1 awr hon bydd disgyblion yn cael cyfle i ddatblygu eu hymwybyddiaeth gronolegol trwy gloddio drwy haenau o sbwng i ddatgelu a trin gwrthrychau o'r gorffennol.

Amcanion dysgu

- Dylai disgyblion:
- Ddysgu beth yw gwaith archaeolegwyr
 - Datblygu dealltwriaeth o gronoleg a chyfnodau amser
 - Gwerthfawrogi beth y gall gwrthrychau ddweud wrthon ni am y bobl a'u gadawodd

Cyswllt â'r cwricwlwm

Iaith, llenyddiaeth a chyfathrebu
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd hanesyddol
Meddwl beirniadol
Ymwbyddiaeth gronolegol

Syniadau ar gyfer y Dosbarth

Rhai awgrymiadau ar beth i'w drafod a'i wneud gyda'r dosbarth cyn ac wedi'r ymweliad.

Cyn ymweld

Rhai geiriau fydd yn cael eu defnyddio yn ystod yr ymweliad:
Curadur, casgliad, archaeoleg, cadwedig / wedi cadw.

Byddai hefyd o fudd petai'r disgyblion yn gyfarwydd â'r cyfnodau hanesyddol canlynol: Fictoriaidd, Rhufeinig, Celtaidd, Cynhanesyddol

Amlinelliad Gweithdy

Gweithgaredd	Disgrifiad	Amser
Trafodaeth	Dangos gwybodaeth flaenorol am archaeolegwyr / haneswyr a'u gwaith.	10 mun
Sesiwn ryngweithiol a thrin.	Disgyblion yn teithio'n ôl mewn amser drwy ddatgelu haenau o arteffactau yn cynrychioli gwahanol gyfnodau mewn hanes. Haen Porfa. Trafod pam fydd pethau'n myn ar goll / diflannu. Haen Fodern. Tynnu'r porfa i ddatgelu gwrthrychau. Fydden ni'n gweld ac yn defnyddio'r pethau yma heddiw? Ystyriwch o ba ddeunyddiau maen nhw wedi eu gwneud ac a fyddan nhw'n pydru? Y dosbarth yn penderfynu pryd y cafodd y gwrthrychau eu creu a symud i'r haen nesaf. Haen Fictoriaidd. Yw'r disgyblion yn adnabod y gwrthrychau? Fyddwn ni yn eu defnyddio nhw heddiw? O beth maen nhw wedi'u gwneud? Sut fyddai archaeolegydd yn dyddio'r haen hon? Haen Rufeinig. Pa ddeunyddiau all y disgyblion weld yn yr haen hon? Yw'r gwrthrychau yn gyfarwydd? Haen Gynhanesyddol. Sut mae'r haen hon yn wahanol i'r haenau blaenorol? Oes cymaint o wrthrychau â'r haenau blaenorol? Creigwely. Mae'r haen hon yn cynnwys detholiad o ffosilau. Pa fath o anifeiliaid oedd y ffosilau pan oedden nhw'n fyw? Oes unrhyw dystiolaeth o fywyd dynol?	50 mun – Tua 10 munud i bob haen
Casgliad	Cyfle i grynhoi, ailosod pob haen a dwyn i gof pob cyfnod hanesyddol.	10 mun

Syniadau ar gyfer y Dosbarth

Canolbwyntio ar un cyfnod hanesyddol
Astudio un cyfnod o'r gloddfa 'Peiriant Amser' yn fanylach. Cyfle i'r disgyblion wneud eu gwaith ymchwil eu hunain a chreu arddangosiad grŵp neu gyflwyniad llafar.

Canolbwyntio ar un gwrthrych
Er enghraifft: **y botwm asgwrn.** Sut mae dulliau o glymu dillad wedi newid drwy hanes? O froetshis i fotymau cragen ac asgwrn i'r zip modern. Gallai hyn gysylltu â thema gwisgoedd gyffredinol.

Crëwch eich cloddfa 'Peiriant Amser' eich hun
Crëwch gloddfa 'Peiriant Amser' yn yr ysgol gan ddefnyddio ffotograffau o wrthrychau o bob cyfnod hanesyddol.

Cerdyn post o bob cyfnod hanesyddol
Dychmygwch eich bod yn byw yn oes y Fictoriaid / Rhufeiniaid ac ysgrifennwch gerdyn post disgrifiadol.

Goblygiadau amgylcheddol
Edrychwch ar oblygiadau ein ffordd ni o fyw heddiw. Beth fyddwn ni'n ei adael ar ôl i genedlaethau'r dyfodol? Beth am lygredd o wrthrychau sydd ddim yn fioddiraddadwy.

